

Farmaceutical Innovations

Proffil y Cwmni

Mae Pharmaceutical Innovations yn fusnes menter newydd yng Nghaergybi, Ynys Môn. Ffurfiwyd y cwmni cyfyngedig bach yn Awst 2011, i dargedu tri maes yn y sector ffytogemegol, gan gynnwys: datblygu prosesau, cyflenwi ac echdynnu toll.



Mae Pharmaceutical Innovations wedi cwblhau astudiaethau ar optimeiddio economaidd a gwelliannau i brosesau er mwyn gwella'r effaith ar yr amgylchedd a'r perfformiad economaidd cyffredinol. Eu nod yw rhoi i'w cleientiaid y sgiliau a'r adnoddau sy'n ofynnol i wella'r llinell gynhyrchu yn gyflym, gan ychwanegu gwerth at y broses gyfan.

Cydweithio â BEACON

Yn wreiddiol, dysgodd Kevin Wall, sef cyfarwyddwr Farmaceutical Innovations, am brosiect BEACON drwy gydweithrediad blaenorol – A4B – ym Mhrifysgol Bangor.

Prif nod Kevin ar gyfer un prosiect oedd sefydlu'r potensial ar gyfer defnyddio offer gwasg sgriwio i rag-drin biomas cennin Pedr fel rhan o broses i echdynnu alcaloidau gan gynnwys Galanthamine – sy'n adnabyddus ar gyfer trin clefyd Alzheimer. Ar ôl ystyried ystod eang o atebion yn flaenorol, trodd Kevin at BEACON i ddatblygu cydweithrediad a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar optimeiddio proses yn ymwneud â bylbiau cennin Pedr.

“ Mae'r prosiect wedi'i gyfarparu'n dda ac mae ganddo ystod o arbenigwyr sy'n gallu cynnig amrywiaeth sylweddol o wybodaeth a phrofiad er mwyn helpu i ddatrys y broblem. ”

Kevin Wall - Director

Yn ystod treialon oedd yn defnyddio'r offer prosesu maint pilot, roedd BEACON yn gallu nodi atebion addas i'r problemau cyfredol o ran prosesu cennin Pedr.

Dangosodd y treialon a gynhaliwyd bod yr offer a'r systemau a ddefnyddiwyd yn fwy nag addas ar gyfer prosesu biomas cennin Pedr a, bellach, maent wedi rhoi Farmaceutical Innovations mewn sefyllfa lle y gallant bennu'r offer yn gywir pan fydd angen ei brynu. Yn y pen draw, bydd hyn yn arbed amser ac arian i'r busnes, trwy ddileu'r costau uchel sydd ynghlwm wrth waith datblygu mawr.

Ar hyn o bryd, mae Pharmaceutical Innovations yn cynnal trafodaethau eto gyda BEACON ynghylch cydweithrediadau yn y dyfodol ar rai o'u prosiectau newydd.



Am fwy o wybodaeth: www.farmaceuticals.biz/